CLWB PÊL-DROED TEIGROD TEILO JUNIOR FOOTBALL CLUB

DISGRIFIAD O RÔL Y PWYLLGOR

(wedi'i gymeradwyo yn y CCA ar 27ain o Dachwedd 2007)

CADEIRYDD

1. **Rôl**

   Gosod naws ac awyrgylch wrth arwain cyfarfodydd a busnes ffurfiol.

2. **Cyfrifoldebau**

   - Cadeirio / arwain cyfarfodydd.
   - Dyfarnu.
   - Arwain gweithdrefnau'r pwyllgor.
   - Aros ar wahân ac yn wrthrychol yn ystod unrhyw drafodaeth neu ddadl.
   - Esbonio polisïau'r clwb i aelodau a swyddogion.

TRYSORYDD

1. **Rôl**

   Cynnal cyfrifon diweddaraf o'r incwm a'r gwariant a darparu gwybodaeth gyraeddadwy ac uniongyrchol ynglŷn â chyflwr ariannol y clwb.

2. **Cyfrifoldebau**

   - Casglu tanysgrifiadau'r clwb.
   - Creu mantolenni a fydd ar gael i aelodau'r clwb archwilio'r cyfrifon.
   - Darparu'r clwb gydag adroddiad ariannol diwedd y flwyddyn i'w gyflwyno yn y CCB.

- Cynghori aelodau'r pwyllgor ynglŷn â phroblemau llif arian.
- Sicrhau bod dau lofnod gwahanol ar bob siec.
- Delio gyda materion ariannol yn barhaol.

YSGRIFENNYDD

1. **Rôl**

   Cwblhau gwaith gweinyddol angenrheidiol a darparu cyswllt rhwng yr aelodau, pwyllgor rheoli a chlybiau a sefydliadau eraill.

2. **Cyfrifoldebau**

- Paratoi agendau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor.
- Cofnodi busnes swyddogol / cofnodion.
- Delio â gohebiaeth y clwb.
- Darparu'r hysbysiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau.

SWYDDOG LLES

1. **Rôl**

   Cyfrifol am les y chwaraewyr iau.

2. **Cyfrifoldebau**

- Sicrhau bod darpariaeth Cymorth Cyntaf yn ddigonol drwy'r adeg.
- Lledaenu Polisi Lles Cymdeithas Pêl Droed Cymru (CPDC) o fewn y Clwb.
- Goruchwylio a rheoli materion lles y chwaraewyr ac oedolion sy'n agored i niwed o fewn y clwb.
- Cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol a mynychu cyfarfodydd sy'n berthnasol i'r Polisi Lles.
- Ymddwyn yn rôl fodel a dangos arferion da mewn perthynas â Chod Ymddygiad Pêl-droed CPDC.

- Gweithredu o fewn y canllawiau sydd wedi'u pennu o fewn dogfen *Ymarferion a Gweithdrefnau Polisi Lles CPDC*.

SWYDDOG CYFRYNGAU/CYSYLLTIADAU/CODI ARIAN/AELODAETH

1. **Rôl**

   Helpu gyda chodi proffil y clwb, cynorthwyo gyda rhedeg ochr ariannol y clwb a sicrhau bod aelodau'r clwb yn ymwybodol o weithgareddau'r clwb.

2. **Cyfrifoldebau**

- Casglu tanysgrifiadau'r clwb.
- Cadw cofrestr presenoldeb yr aelodau iau.
- Chwilio am nawdd i'r clwb.
- Trefnu digwyddiadau codi arian.
- Chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwybodaeth er mwyn hybu'r clwb drwy'r cyfryngau lleol.
- Gweithredu o fewn y canllawiau sydd wedi'u pennu o fewn dogfen *Ymarferion a Gweithdrefnau Polisi Lles CPDC*.

CYDLYNYDD HYFFORDDI

1. **Rôl**

   Darparu cyswllt rhwng yr hyfforddwyr a'r pwyllgor a chydlynu'r hyfforddi yn y clwb

2. **Cyfrifoldebau**

- Helpu chwilio am hyfforddwyr newydd a threfnu hyfforddiant hyfforddi ar eu cyfer
- Sicrhau bod gan y clwb ddigon o hyfforddwyr ar gyfer ymarferion a gemau cystadleuol

- Ymddwyn yn rôl fodel hyfforddi ac arddangos arferion hyfforddi da
- Sicrhau bod hyfforddwyr yn hyfforddi'n effeithiol
- Cynrychioli barn hyfforddwyr y clwb i'r Pwyllgor Rheoli, ac i'r gwrthwyneb.